

Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Mai 7ed 2024 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Tuesday May 7th 2024 at Penbryn Memorial Hall.*

Yn bresennol/*Present* – Cynghorwyr/*Councillors* Delfryn Owens, Caerwyn Owen, Gwyn James, Melva Phillips, Jonathan Rees, Gareth Evans, Walwyn Jones, Elen Mathias.

1 Ymddiheuriadau/Apologies

Cynghorwyr/*Councillors* Teifi Davies, Barri Davies, William Anwyl.

2 Materion Personol/Personal Matters

Cydymdeimlwn â Carol, y cyn-Glerc, ar golli ei mam yn ddiweddar.

Our condolences go to Carol, former Clerk, having lost her mother recently.

3 Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol/Annual General Meeting

Dewis Swyddogion am y Flwyddyn 2024-25/ Electing Officials for the year 2024-25.

i) Adolygiad o'r Flwyddyn/*Review of Year*

Dyweddodd Delfryn fod llawer o bethau cadarnhaol wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wrth i'r Cyngor lwyddo i agor cyfrif banc newydd gyda **Bank of Scotland**. Yn ychwanegol nododd o bosibl y byddai angen i'r Cyngor ddechrau ystyried bancio ar-lein yn y dyfodol, yn enwedig yn sgil cau Banc Lloyds yn Aberteifi. Newyddion da pellach oedd medru derbyn Elen yn aelod diweddaraf y Cyngor a'i chroesawu i'r gorlan.

*Delfryn stated that a great deal had been achieved during this last year, having succeeded in opening a new bank account with **Bank of Scotland**. In addition to this, he believed possibly the Council would have to consider banking online in the future, especially in the wake of bank closures. Further good news was being able to welcome Elen as our latest new member.*

ii) Ethol Cadeirydd/*Elect a Chairperson*

Yn rhinwedd ei swydd yn Is-Gadeirydd y Cyngor gwahoddwyd Jonathan i gamu i swydd y Cadeirydd am y flwyddyn a ddaw. Derbyniodd Jonathan y fraint yn llawen a diolchodd yntau ynghyd â'i gyd-aelodau i Delfryn am ei arweiniad cadarn yn ystod y flwyddyn a fu.

In his capacity as Vice-Chairperson of the Council Jonathan was formally invited to accept the post of Chairperson for the coming year. Jonathan gladly accepted the invitation and along with fellow members thanked Delfryn for his leadership throughout this last year.

iii) Ethol Is-Gadeirydd/*Elect a Vice- Chairperson*

Yn dilyn trafodaeth ac anogaeth yr aelodau enwebwyd Melva i fod yn Is-Gadeirydd newydd y Cyngor. Derbyniodd y gwahoddiad yn llawen gydag unfrydedd barn yr aelodau.

Having had a discussion among members, Melva was nominated to become the Council's new Vice-Chairperson. She gladly accepted the invitation with the Council's unanimous support.

4 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 2/4/24

Cynigiwyd gan Walwyn eu bod yn gywir a'i eilio gan Caerwyn.

Motioned by Walwyn to be correct and seconded by Caerwyn.

5 Materion yn Codi/Matters Arising

i) Llundain Beiciau Gwaed/*Blood Bikes Photograph*

Ychydig cyn y cyfarfod hwn daeth cynrychiolwyr o'r Cyngor a'r Gwasanaeth Beiciau Gwaed ynghyd, y tu allan i'r Neuadd, i dynnu llun cyflwyno rhodd ariannol y Cyngor hwn i'r elusen. Cyflwynwyd y siec am £300 ar ran y Cyngor gan Delfryn a Jonathan. Dysgwyd llawer am natur eu gwaith trwy drafod gyda Graham a'r criw o wirfoddolwyr.

Shortly before this meeting, representatives from this Council and the Bike Blood Service congregated outside the Hall, in order to photograph the presentation of a cheque. Penbryn Council had contributed £300 to this charity and the cheque was formally presented on behalf of the Council by Delfryn and Jonathan. Graham and the other volunteers gave us all an insight into the nature of their work.

ii) Prynu Argraffydd i'r Cyngor/*Purchase of Printer for the Council*

Dywedodd y Clerc fod Graham wedi prynu argraffydd at ddefnydd y Cyngor a'i fod yn cael ei gadw'n ddiogel ar aelwyd y Clerc.

The Clerk stated that Graham has purchased a printer for the Council's use to be kept safely at the Clerk's home.

iii) Terfyn Cyflymder 20 mya/*20 mph Speed Limit*

Nododd y Clerc ei fod wedi anfon ymateb aelodau'r Cyngor ynghylch y terfyn cyflymder at swyddfa Elin Jones. Diolchwyd i'r Cyngor am ymateb i'r arolwg a gynhelir gan yr A.S.C i'r polisi uchod. Datblygiad pellach yw fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adolygiad trylwyr o'r polisi hwn, felly ni fydd yn syndod pe bai gofyn inni ymateb i arolwg arall yn y dyfodol agos.

The Clerk noted that he had sent the members' response regarding the speed limit to Elin Jones' office. The M.S thanked this Council for their input to the survey being conducted within the constituency. A further development is that the Welsh Government has announced a full review of this policy, leading possibly to the need to respond to further surveys regarding this matter.

iv) Rhoddion i Fudiadau ac Elusennau/*Donations to Societies and Charities*

Yn dilyn y drafodaeth yn ystod y cyfarfod blaenorol, ynghylch pennu dau gyfnod penodol ar gyfer cyfrannu rhoddion i elusennau, cytunwyd i weithredu'r cynllun hwn ar brawf am flwyddyn. Y cyfnodau a bennwyd oedd misoedd Medi a Chwefror. Cynigiwyd hyn gan Gwyn gyda Delfryn yn eilio.

Following last month's discussion, regarding designating two specific periods for distributing donations to charities, it was agreed unanimously to accept the proposal for this year on a trial run basis. The two agreed periods were September and February. Proposed by Gwyn and seconded by Delfryn.

v) Meinciau Tresaith/*Tresaith Benches*

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Bwyllgor Lles Tresaith yn gofyn a fyddai'r Cyngor Cymuned yn medru prynu meinciau newydd ar gyfer y pentref. Nodwyd bod y ddwy fainc a roddwyd gan y Cyngor yn 2008 bellach mewn cyflwr truenus. Mae'r Cyngor eisoes wedi derbyn yr egwyddor bod angen eu newid mewn cyfarfod blaenorol.

Ychwanegwyd bod angen ystyried cyflwr mainc ar y clogwyn hefyd. Cytunodd Melva

i fynd draw i weld beth yw eu cyflwr a chael amcanbris ar gyfer meinciau newydd. Nodwyd y byddai angen 2 neu 3 amcanbris o bosibl.

Correspondence was received from Tresaith Welfare Committee asking whether the Council could purchase new benches for the village. It was noted that the two benches donated by this Council in 2008 were in a terrible state. The Council has already accepted the principle of replacing them during a previous meeting. Another bench along the cliff path needing possibly to be maintained was mentioned. Melva agreed to visit and report on their condition, as well as obtaining 2 or 3 quotes for replacement benches.

6 Cyllid/Finance

i) Balans/Balance

Y Balans oedd £7179.95. Talwyd £38.00 i Un Llais Cymru a derbyniwyd taliad cyntaf y Praesept sef £4166.66. Y Balans newydd fydd £11308.61.

The Balance was £7179.95. A payment of £38.00 was made to One Voice Wales and the first Precept payment for £4166.66 was received. The new Balance is £11308.61.

ii) Taliadau/Payments

Cofnodwyd a chymeradwyd y taliadau canlynol/*The following payments were noted and approved.*

Aelodaeth Un Llais Cymru/*One Voice Wales Membership* £275.00

Graham Jones- Argraffydd/*Printer* £124.99

Ad-dalu Delfryn am dalu Bois y Mowo/*Reimburse Delfryn for paying Bois y Mowo for maintaining footpath* £100.00

iii) Cyflog y Clerc/Clerk's Salary

Cafwyd trafodaeth ynghylch y ffordd orau o osod cyflog y Clerc yn seiliedig ar ganllawiau a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru. Wedi i'r gwahanol ganllawiau gael eu trafod, cytunwyd i ofyn i'r Clerc bennu cyfanswm o oriau y tybia sydd eu hangen arno yn arferol i gwblhau'i ddyletswyddau. Ar adegau prysurach na'r arfer, cynghorwyd y Clerc i gadw cyfrif o unrhyw oriau ychwanegol a weithiwyd.

Setting the Clerk's salary was discussed based upon criteria provided by One Voice Wales. Having discussed all possible options, it was agreed to ask the Clerk to designate a specific number of hours needed usually in order to complete his duties. At busier times of the year, the Clerk was advised to keep a record of any additional hours worked.

7 Cynllunio/Planning

DIM CEISIADAU/NO APPLICATIONS

8 Gohebiaeth/Correspondence

DIM GOHEBIAETH/NO CORRESPONDENCE

9 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

i) Llinellau Gwyn Dwbwl/Double White Lines

Ar ran Teifi, yn ei absenoldeb, mynegodd y Clerc y sylwadau ei fod wedi sylwi bod rhai o'r llinellau gwyn dwbwl ar yr A487 yn y plwyf hwn yn dechrau pylu a bod angen

eu hail-baentio. Nodwyd bod y mater hwn ynghlwm wrth fater diogelwch y ffordd hon a'n bod yn dal i ddisgwyl ateb i'n gohebiaeth flaenorol.

On behalf of Teifi, in his absence, the Clerk stated that Teifi had noticed that some of the double white lines on the A487 in this parish have started to fade and need some additional paint. Members were reminded that this matter relates to road safety on this route and that we're still awaiting a reply to our previous correspondence.

ii) **Comisiwn Ffiniau Cynghorau Cymuned Ceredigion/Boundaries Commission Ceredigion Community Councils**

Gosododd Gwyn y cyd-destun ar y cychwyn gan nodi bod arolwg yn cael ei gynnal bob 15 mlynedd. Y canllaw gwreiddiol oedd isafswm o 800 o etholwyr ond eu bod wedi codi'r trothwy ar gyfer rhai cynghorau i 1750 o etholwyr. Gyda'r argymhelliad bod Cynghorau Llangrannog a Phenbryn yn uno i ffurfio Cyngor o 1750 o etholwyr gyda 7 Cynghorydd yn unig, mynegwyd cryn wrthwynebiad i'r bwriad. Yn ei absenoldeb, mynegodd y Clerc, ar ran Teifi, ei wrthwynebiad llwyr i'r awgrym hwn. Dywedodd fod y penderfyniadau yn mynd ymhellach eto oddi wrth yr etholwyr ac yn lladd gallu unrhyw Gyngor i gynrychioli pob rhan o'r gymuned. Byddai yna nifer annigonol o Gynghorwyr gyda'r pwysau arnynt yn cynyddu'n aruthrol. Wrth sôn am y cyfrifoldebau newydd fydd o bosibl ar y ffordd i'r Cynghorau Cymuned, pwy fyddai eisiau'r cyfrifoldeb yn y dyfodol? Ac yn ariannol, o ran y Praesept a Lwfans Cynghorwyr, ni fyddai unrhyw arbedion ariannol o gwbl. Mynegodd y Clerc ei barodrwydd i gyfleu'r gwrthwynebiad hwn drwy ohebu â'r Comisiwn Ffiniau.

Gwyn set the context at the beginning by noting that a similar survey is held every 15 years. The original context was for a minimum of 800 electors but they have raised the threshold for some communities to 1750 electors. With the recommendation that Llangrannog and Penbryn are amalgamated to create a community of 1750 electors, with only 7 Councillors, it was unanimously opposed. In his absence, on behalf of Teifi, the Clerk stated his opposition to the proposal. He stressed that decisions were being made even further from the electors and that no such Council could hope to represent all parts of the enlarged community. There would be far too few Councillors with their responsibilities greatly increased. Also with the possible transfer of additional responsibilities to these Councils, who would want the responsibility in the future? Also financially, regarding the Precept and Members' Allowances, there would be no savings at all. The Clerk expressed his willingness to convey this opposition by corresponding with the Boundaries Commission.

iii) **Heol Enlli, Tanygroes**

Nododd y Clerc y bydd yr heol hon ynghau rhwng 8 o'r gloch y bore a 5 o'r gloch y prynhawn ar Fehefin 11eg er mwyn gosod tap cau.

The Clerk noted that this road will be closed between 8.00 am and 5.00 pm on June 11th in order to install a stop tap.

10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Mehefin 4ydd 2024 am 7.30 y.h.

Next meeting will be held on Tuesday, June 4th 2024 at 7.30 p.m.

